

*Cyfres Crefyddau'r Byd Heddiw*

*Archwilio*

# Iddewiaeth



*Llawlyfr Athrawon*

Cyfres Crefyddau'r Byd Heddiw

## Archwilio Iddewiaeth

Tania ap Siôn a Diane Drayson.

Darluniau: Phillip Vernon.

Cyfieithiad: Nant Roberts.



**Bear Lands Publishing**

Yn y Gyfres Crefyddau'r Byd Heddiw, mae Rhys a Sara'n dysgu am brif grefyddau'r byd yn eu gwlad eu hunain. Y saith stori yn y gyfres yw:

- Archwilio Islam
- Archwilio Iddewiaeth
- Archwilio'r Eglwys y Plwyf
- Archwilio'r Eglwys Uniongred
- Archwilio Hindwâeth
- Archwilio Bwdhaeth
- Archwilio Sikhiaeth



Cyhoeddwyd gyntaf 2009 gan y Ganolfan Genedlaethol  
Addysg Grefyddol,  
Prifysgol Bangor  
(noddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru).

Ail argraffiad (ar-lein) 2019 gan  
Bear Lands Publishing,  
Canolfan y Santes Fair,  
Llys Onnen,  
Abergwyngregyn,  
Gwynedd, LL33 0LD, Cymru.

## Archwilio Iddewiaeth

### Y stori

Mae gan Rhys a Sara ddau ffrind Iddewig o'r enw Dan a Rebecca sy'n cyflwyno credoau ac arferion allweddol Iddewiaeth iddyn nhw. Mae'r plant yn archwilio synagog ac yn cymryd rhan mewn gwasanaeth Shabbat. Maen nhw'n dathlu gŵyl Sukkot ac yn clywed y stori am hynafiaid Dan a Rebecca yn teithio i Wlad yr Addewid. Mae Rhys a Sara'n dysgu am brif ffynhonnell awdurdod Iddewiaeth, y Torah, a sut mae rabbis Iddewig yn helpu Iddewon i ddeall beth mae'n ei ddweud. Maen nhw'n archwilio credoau Iddewig ynghylch yr amgylchedd yn yr ysgrythurau Iddewig, ac yn gweld sut mae cred yn gallu cysylltu â gweithredu drwy gefnogi elusennau. Mae'r plant yn dysgu am kashrut (y cyfreithiau bwyd Iddewig) a sut mae Iddewon yn eu bywydau o ddydd i ddydd yn dehongli'r rheolau hyn mewn ffyrdd gwahanol.

### Yr elfennau sylfaenol

Nid yw diffinio 'Iddew' ac 'Iddewiaeth' yn dasg hawdd, ac nid oes diffiniadau sy'n cael eu derbyn yn gyffredin. Mae'n bosibl bod yn Iddewig heb fod yn grefyddol, ac yn draddodiadol, mae'r llinach Iddewig yn parhau drwy'r fam, sy'n tueddu i bwysleisio'r agweddau diwylliannol a hiliol ar fod yn Iddewig. Er hynny, mae crefydd yn chwarae rhan bwysig yn hunaniaeth a bywydau nifer o Iddewon drwy'r byd, ac mae'n bosibl troi at y grefydd rydym yn ei galw'n Iddewiaeth.

Yn hanesyddol, fe allai rhannau o'r hyn sy'n cael ei alw nawr yn Iddewiaeth ddeillio o gyfnod mor bell yn ôl â 1,500-2,000 Cyn y Cyfnod Cyffredin. Yn ddiwinyddol, yn y Torah, mae Abraham yn cael ei gyflwyno fel tad yr Iddewon, a nodwyd y berthynas arbennig (cyfamod) rhwng Abraham a Duw drwy enwaedu Iddewon gwryw, arferiad sy'n parhau hyd heddiw. Yn dilyn hynny, mae'r Torah yn dweud bod Duw wedi arwain y bobl o gaethiwed yn yr Aifft i Wlad yr Addewid (Canaan), lle gwnaethon nhw ymsefydlu a chodi Teml yn Jerwsalem, wedi ei chysegru i Dduw. Cafodd y tir ei oresgyn a'i feddiannu gan yr Assyriaid, y Babiloniaid, ac yn y pen draw y Rhufeiniaid a ddirniodd y Deml am y tro olaf yn y flwyddyn 70 Cyfnod Cyffredin. Mae hyn yn cael ei weld fel moment allweddol yn hanes yr Iddewon, oherwydd roedd y synnwyr o fod yn bobl neu genedl ynghlwm i raddau helaeth â'r Deml. Er hynny, fe wnaeth y rabbis (y Phariseaid) lwyddo i ailffurfio'r bywyd crefyddol a diwylliannol Iddewig drwy ganolbwyntio'r sylw ar synagogau a symud arferion crefyddol i ffwrdd oddi wrth aberthau coeth y Deml tuag at weddio, darllen yr ysgrythurau, ac addysgu. Dyma oedd dechrau'r grefydd rydym ni heddiw yn ei galw'n Iddewiaeth.

Heddiw, amcangyfrifir bod tua 75% o Iddewon yn byw yn UDA neu Israel. Mae cymunedau arwyddocaol eraill o Iddewon yn bodoli yn Rwsia, Ffrainc, Canada, ac yn y D.U., ac mae cymunedau llai yn nifer o wledydd eraill y byd. O ran ethnigrwydd, mae'r mwyafrif o Iddewon naill ai'n Iddewon Ashkenazim neu'n Iddewon Sephardim, ac o ran crefydd, mae tri mudiad neu draddodiad sylfaenol yn cael eu cynrychioli ym Mhrydain: Uniongred (y mwyafrif ceidwadol a thraddodiadol); Ceidwadol (rhwyng yr Uniongred a'r Diwygwyr), a'r Diwygwyr (y mwyafrif rhyddfrydig). Yn y stori hon, mae Rhys a Sara yn archwilio Iddewiaeth Ddiwygiedig.

Mae Iddewon Diwygiedig yn credu:

- mai un Duw sydd, a greodd y bydysawd, ac sy'n parhau i weithio yn y bydysawd;
- bod dealltwriaeth arbennig (cyfamod) rhwng Duw ac Iddewon crefyddol – mewn ymateb i weithgarwch Duw yn y byd, maen nhw'n cadw at gyfreithiau Duw, ac fe ddylen nhw gyflwyno esiampl dda i bobl eraill. Cymerir gofal yn aml i beidio â chyflwyno hyn mewn ffordd gyfyngedig;
- bod Duw a chyfreithiau Duw yn cael eu datgelu yn y Torah, sef testunau ysgrifenedig gwahanol unigolion a ysbrydolwyd gan Dduw wedi'u casglu ynghyd.
- bod angen dehongli'r Torah mewn modd priodol i'r amser a'r lleoliad;
- bod gan bob unigolyn enaid anfarwol, a fydd yn profi hapusrwydd bythol neu anhapusrwydd bythol ar ôl marwolaeth y corff. Er hynny, yn wahanol i grefyddau eraill, nid credoau am fywyd ar ôl marwolaeth yw canolbwynt Iddewiaeth, oherwydd nid yw'r ysgrythurau Iddewig yn delio â hyn yn fanwl

Mae Iddewon Diwygiedig yn arfer:

- gweddio, sy'n arfer canolog yn y synagog neu gartref – mae'r weddi'n canolbwyntio ar foli, diolch, ac ymbilio;
- addoli fel cynulleidfa yn y synagog, sy'n canolbwyntio ar weddio, darllen o'r ysgrythur, ac addysgu;
- dilyn y cyfreithiau yn y Torah mewn ffordd sy'n berthnasol ac ystyrlon i sefyllfa heddiw..

## Pennod I Ymweld â synagog

### Shabbat

Yn y Torah, mae'n dweud bod Iddewon yn cael gweithio am chwe diwrnod yr wythnos, ond y dylai'r seithfed niwrnod fod yn ddiwrnod i ymlacio, ac wedi'i neilltuo i Dduw. Mae'r diwrnod hwn yn cael ei alw'n Shabbat, neu'r Sabbath. Mae'r modd y mae 'gwaith' yn cael ei ddiffinio yn wahanol yng ngolwg y grwpiau Iddewig amrywiol. Mae nifer o Iddewon Uniongred yn ystyried 'gwaith' mewn modd llythrennol a llym, ac maen nhw'n cynnwys gyrru ceir, cerdded ymhellach na phellter penodol, cynnau'r trydan i gael golau, garddio neu goginio fel 'gwaith', er enghraifft. O ganlyniad, efallai y byddan nhw'n defnyddio amseryddion awtomatig ar gyfer cyfarpar trydanol, a chynllunio'n ofalus ymlaen llaw i sicrhau nad ydyn nhw'n 'gweithio' yn unol â'r diffiniad hwn. Mae teulu Dan a Rebecca yn Iddewon Diwygiedig, ac nid yw eu teulu yn ystyried 'gwaith' mewn modd mor llym. Maen nhw'n ystyried Shabbat fel amser i fod yn llawen, lle gallan nhw dreulio amser gyda'i gilydd fel teulu, gan gofio a diolch i Dduw am y rhoddion maen nhw'n eu cael gan Dduw. Ym mha ffordd bynnag y mae 'gwaith' yn cael ei ddeall, os oes bywyd mewn perygl, mae'r bywyd hwnnw'n cael blaenoriaeth dros gyfreithiau'r Shabbat.

Mae'r Shabbat yn dechrau gartref ar nos Wener i Dan a Rebecca, gyda'u mam yn croesawu'r Shabbat drwy oleuo dwy gannwyll. Mae eu tad yn bendithio ei blant ac yn bendithio bara a gwin (Kiddush), cyn i'r teulu fwynhau pryd o fwyd Shabbat gyda'i gilydd. Fore Sadwrn, mae teulu Dan a Rebecca yn mynd i'r synagog i gymryd rhan mewn gwasanaeth boreol Shabbat arbennig, ac maen nhw'n gwahodd Rhys a Sara i ymuno â nhw. Ar ôl y gwasanaeth, bydd dau bryd bwyd Shabbat arall yn cael eu bwyta. Gyda'r machlud, caiff cannyll Havdalah arbennig ei chynnau i symboleiddio'r golau a greodd Duw ar ddiwrnod cyntaf y creu. Mae cyfuniad o sbeisys mewn blwch sbeisys hefyd yn cael eu harogleuo, gan symboleiddio'r gobaieth y bydd bendithion Shabbat yn parhau yn yr wythnos a ddaw.

### Dillad arbennig

Pan mae Rhys a Sara yn mynd i mewn i'r synagog, maen nhw'n sylwi fod aelodau o'r gynulleidfa yn gwisgo dillad arbennig. Mae'r kippah (cap) yn cael ei wisgo fel arwydd o barch, ac mae'r tallit, neu'r siolau gweddio, yn atgoffa Iddewon o'u hymrwymiaid i gadw gorchmynion Duw, sy'n cael eu datgelu yn y Torah. Mae'r gorchmynion i wisgo'r tallit i'w gael yn Numeri 15:38-40. Bydd dynion fel arfer yn dechrau gwisgo'r tallit yn eu seremoni dderbyn, sy'n cael ei galw'n Bar Mitvah. Mae'r seremoni hon yn cael ei chynnal pan fyddan nhw tua thair ar ddeg oed,

pan fyddan nhw'n dod yn aelod llawn o'r gynulleidfa Iddewig, ac yn ymrwmo eu hunain i gadw cyfreithiau Duw yn y Torah. Ystyr Bar Mitvah yw 'Mab y Gyfraith'. Mewn Iddewiaeth Ddiwygiedig, gall merched hefyd ddechrau gwisgo'r tallit ar ôl seremoni dderbyn debyg sy'n cael ei galw'n Bat Mitvah, sy'n cael ei chynnal pan fyddan nhw tua deuddeg oed. Ystyr Bat Mitvah yw 'Merch y Gyfraith'. Nid yw merched Uniongred yn gwisgo'r tallit.

### Y Torah

Canolbwynt y gwasanaeth yw'r Torah, llyfr sydd wedi cael ei ysgrifennu ar sgröliu mewn Hebraeg. Caiff y sgröliu eu cadw mewn cwpwrdd sy'n cael ei alw'n arch, yn wynebu dinas Jerwsalem. Mae'r arch yn symboleiddio Arch gludadwy'r Cyfamod, a oedd yn dal y Deg Gorchmynion a roddwyd i Moses ar Fynydd Sinai, ac yn ddiweddarach y pethau mwyaf sanctaidd o'r holl bethau sanctaidd yn y Deml yn Jerwsalem. Mae gwahanol rannau o'r Torah yn cael eu darllen mewn gwahanol wasanaethau nes bydd cylch darllen y Torah yn gyflawn. Mae pwysigrwydd sgröliu'r Torah yn cael ei ddangos yn y lefel o ofal a pharch y mae Iddewon yn ei ddangos tuag atyn nhw. Er enghraifft:

- maen nhw'n cael eu hysgrifennu'n ofalus â llaw gan ysgrifenyddion heb unrhyw gamgymeriadau;
- mae unrhyw sgröliu sy'n cael eu difetha, neu sgröliu sy'n rhy hen i gael eu defnyddio, yn cael eu claddu mewn seremoni;
- mae'r sgröliu'n cael eu 'gwisgo' â mentyll, dwyfronegau, a therfyniadau i'w gwarchod, yn ogystal â phortreadu symbolau pwysig i Iddewiaeth;
- mae yad neu bwyntydd yn cael ei ddefnyddio i ddarllen y sgröliu er mwyn osgoi eu cyffwrdd a'u difrodi;
- gan fod y Torah yn cael ei gludo o amgylch y synagog, mae aelodau'r gynulleidfa yn sefyll fel arwydd o barch.

Ymysg y symbolau Iddewig poblogaidd sy'n ymddangos ar lenni, mentyll, dwyfronegau a therfyniadau'r arch, mae:

- dwy lechen – yn cynrychioli'r Deg Gorchmynion a roddwyd i Moses ar Fynydd Sinai;
- menorah – canhwylbren 7 cangen a oedd yn cael ei chynnau yn y Deml i symboleiddio presenoldeb Duw. Heddiw, mae'r lamp ner tamid yncyflawni'r un diben;
- llewod ar y naill ochr a'r llall i'r llechi – yn cynrychioli'r ceriwb a warchododd yr Arch;
- pomgranadau – roedd y rhain yn cael eu trysori fel y ffrwythau gorau yn Israel ac maen nhw'n cael eu hongian ar wisg yr Archoffeiriad yn y Deml;

- blodau a dail – yn symboleiddio'r Torah yn blodeuo;
- coron – yn symboleiddio 'coron y Torah' a statws brenhinol uchel y Torah. Yn ogystal, roedd yr Archoffeiriad yn y Deml yn gwisgo coron;
- coeden bywyd – yn symboleiddio bod y Torah yn darparu sylfeini bywyd;
- seren Dafydd – mae hon yn cael ei galw'n darian Dafydd hefyd;
- clychau – roedd clychau yn hongian ar wisg yr Archoffeiriad yn y Deml;
- delweddau'n dangos storiâu o'r Torah, fel Arch Noa, er enghraifft.

Mae amrywiaeth mawr o addurniadau'n bodoli,

rhai traddodiadol a chyfoes, a gellir gweld y rhain yn hawdd ar safleoedd siopa ar-lein gan ddefnyddio geiriau fel 'Torah mantles', 'Torah breastplates' a 'Torah rimonim' wrth chwilio.

### Y rabi

Mae rabi yn athro Iddewig sydd wedi cael ei ordeinio. Mewn Iddewiaeth Ddiwygiedig, gall merched yn ogystal â dynion fod yn rabbis. Gall rabi arwain gweddi, dysgu, a helpu i egluro ystyr y Torah a'r gyfraith i gynulleidfaoedd, yn ogystal â chyflawni cyfrifoldebau bugeiliol. Mae corau Synagog hefyd yn boblogaidd mewn nifer o synagogau, ac maen nhw'n canu gweddiâu.

## Gweithgareddau

### Cymysgu a matsio

Torrwch allan y naw bocsydd ar y daflen waith 'Ysgrifennu Stori', ac yna torrwyd bob bocsydd yn dri darn: y pennawd, y wybodaeth a'r llun. Cymysgwch yr holl rannau a'u rhoi mewn amlen. Rhannwch y plant yn barau neu grwpiau gan roi amlen i bob grŵp neu bâr. Bydd gofyn i'r plant fatsio'r pennawd, y wybodaeth a'r llun yn gywir. Gwnewch y gwaith ar y daflen 'Ysgrifennu Stori', (fe allech chi addasu'r stori fel y mynnwch chi i unrhyw genre, fel dyddiadur neu erthygl bapur newydd).

### Ymweld â synagog

Ewch i ymweld â synagog a chwiliwch am y manau sy'n cael eu nodi yn y stori. Sut mae'n wahanol i lefydd sydd yn y llyfr, a beth sydd yr un fath?

### Gemwaith y ffydd

Yn y stori, mae Rebecca yn gwisgo cadwyn â Seren Dafydd arni. Ledled y byd, trwy hanes, mae gemwaith wedi cael ei ddefnyddio at bwrsas crefyddol. Pan fydd rhywun yn gwisgo gemwaith o'r fath, maen nhw'n aml yn datgan yn gyhoeddus pwy ydyn nhw a beth maen nhw'n ei gredu.

Archwiliwch symbolau Iddewig eraill sydd i'w cael mewn gemwaith trwy chwilio ar y rhyngwrwyd, gan ddefnyddio'r geiriau allweddol: Jewish jewellery. Fe ddylai'r plant allu dod o hyd i'r symbolau canlynol wedi'u hymgorffori mewn gemwaith Iddewig mewn siopau ar-lein.

- Seren Dafydd - Bydd hefyd yn cael ei galw'n Magen David. Honiad cyffredin yw bod y seren yn cynrychioli tarian y Brenin Dafydd, a oedd yr un siâp. Nid yw'r dystiolaeth sy'n cefnogi'r honiad yn un gref iawn, ond mae Seren Dafydd yn parhau i fod y symbol Iddewig mwyaf cyfarwydd.
- Menorah - Fe losgai'r canhwyllau hyn yn y Deml yn Jerwsalem, cyn iddi gael ei dinistrio gan y gan y Rhufeiniaid yn y flwyddyn 70 Cyfnod

Cyffredin. Mae'n symboleiddio presenoldeb Duw a'r ddelfryd Feiblaidd y dylai Iddewon fod yn 'oleuni i'r cenhedloedd' gan dynnu pobl at Dduw trwy osod esiampl dda.

- Mezuzah - Sgrôl Hebraidd yn cynnwys adnodau pwysig o'r Torah, gaiff eu galw'n Shema. Darllenwch y nodiadau i athrawon ar gyfer pennod 4 sy'n cynnwys gwybodaeth ychwanegol.
- Chamsa (neu hamsa) - Ystyr 'chamsa' yw 'pump', ac mae'n ymddangos fel ffurf llaw. Ynaml, cyfeirir at y llaw hon fel Llaw Miriam. Yn symbolaidd, mae'n cynrychioli llaw warchodol Duw. O'r Dwyrain Canol y tarddodd y 'chamsa', ac mae i'w chael hefyd mewn Islam lle caiff ei galw'n Llaw Fatima.
- Shema - Gwelwch y wybodaeth am y mezuzah, a nodiadau i athrawon ar gyfer pennod 4. Bydd rhannau o'r geiriau Hebraeg hyn i'w cael ar eitemau o emwaith.
- Chai - Mae'n cynnwys dwy lythyren o'r wyddor Hebraeg, 'het' a 'yod', sydd gyda'i gilydd yn golygu'r gair 'byw'. Fe allai 'byw' fod yn gyfeiriad at Iddewiaeth sy'n canolbwyntio ar 'fywyd', neu at y Duw 'byw'.
- Shofar - Dyma'r corn hwrdd a ddefnyddid ar gyfer defodau yn y deml yn Jerwsalem. Heddiw, caiff ei gysylltu'n bennaf â dathlu'r Flwyddyn Newydd Iddewig. Yn yr ysgrythurau Iddewig chwythwyd y shofar ar ddechrau brwydr ac fe ddefnyddiwyd y shofar pan gipiodd Joshua ddinas Jericho.

Archwiliwch yr ystyr sydd y tu ôl i'r symbolau. Ysgrifennwch enw pob symbol ar gerdyn bach. Gan weithio mewn grwpiau, a defnyddio'r cardiau, gofynnwch i'r plant drefnu'r symbolau yn ôl eu pwysigrwydd. Ar ôl rhoi adborth, soniwch fod Seren Dafydd, ar hyn o bryd, y symbol Iddewig mwyaf poblogaidd, ac yna gwnewch y gwaith ar y daflen 'Seren Dafydd'.

## Pennod 2 Dathlu'r Sukkot

### Gwyliau'r pererinion

Mae Iddewon yn dathlu nifer o wyliau, ac mae tair o'r rhain yn cael eu galw'n wyliau pererindod. Mae'r gwyliau pererindod yn ddefnyddiol iawn i gyflwyno'r cyfnod yn hanes Iddewiaeth cyn i'r Israeliaid ymsefydlu yng Ngwlad yr Addewid. Mae'r Pesach neu'r Pasg Iddewig yn gysylltiedig â Moses a dihangfa'r Israeliaid o'r Aiff; Sukkot neu Wyl y Tabernaclau neu Bebyll yn gysylltiedig â thaith yr Israeliaid yn y diffeithwch pan oedden nhw'n byw mewn cytiau cludadwy; a Shavuot, neu Wyl yr Wythnosau yn gysylltiedig â rhoi'r gorchmynion i Moses ar Fynydd Sinai. Mae dehongli'r hanes hwn wedi cael effaith nodedig ar ddiwinyddiaeth Iddewig. Er enghraifft, mae nifer o themâu diwinyddol pwysig yn bresennol: bodolaeth perthynas arbennig rhwng Duw a hynafiaid Iddewig; y modd yr amddiffynnodd Duw ei bobl, ac ymddiriedaeth y bobl yn Nuw; a rhoi gorchmynion Duw, sydd heddiw'n chwarae rhan ganolog mewn Iddewiaeth.

Rydym yn defnyddio'r calendr Gregoraidd sy'n galendr solar. Mae gwyliau Iddewig yn seiliedig ar galendr sy'n gyfuniad o galendr perthynol i'r haul a'r lleuad. Mae hyn yn golygu fod dyddiadau'r gwyliau yn newid o flwyddyn i flwyddyn pan fyddan nhw'n cael eu rhoi yn y calendr Gregoraidd. Yn y calendr Iddewig, ceir y misoedd canlynol: Nissan (Mawrth-Ebrill); Iyar (Ebrill-Mai); Sivan (Mai-Mehefin); Tammuz (Mehefin-Gorffennaf); Av (Gorffennaf-wst); Elul (Awst-Medi); Tishri (Medi-Hydref); Cheshvan (Hydref-Tachwedd); Kislew (Tachwedd-hagfyr); Tevet (Rhagfyr-Ionawr); Shevat (Ionawr-Chwefror); ac Adar (Chwefror-Mawrth).

Ymysgy gwyliau Iddewig pwysig eraill mae: Hanukkah (Gwyl y Goleuni), Rosh Hashanah (Blwyddyn Newydd), Purim (yn dathlu'r fuddugoliaeth dros erledigaeth Haman), ac Yom Kippur (Dydd y Cymod).

### Gwyl Sukkot

Bydd gwyl Sukkot yn cael ei chynnal ryw dro yn ystod Medi neu Hydref. Yn ôl y calendr Iddewig, mae'n dechrau ar 15 Tishri ac yn para am saith niwrnod. Ystyr yr enw Sukkot yw 'cytiau' (sukkah yw un cwt), ac mae hyn yn ymwneud â phrif nodwedd yr wyl; cwt, sy'n cael ei adeiladu a phobl yn byw ynddo dros gyfnod yr wyl.

### Adeiladu sukka

Mae'n rhaid i sukka gael o leiaf 2 wal a hanner trydedd wal, a bod yn ddigon mawr i gyflawni'r gorchmyn i fyw ynddo. Gellir gwneud y waliau o unrhyw ddeunydd, ond dylid cofio mai rhywbeth dros dro ddylai'r cwt fod. Mae'n rhaid gwneud y to

o unrhyw blanhigyn neu goeden sydd wedi tyfu yn y ddaear – mae canghennau coed yn ddeunyddiau cyffredin. Pan fydd y to'n cael ei roi ar y cwt, mae'n bwysig fod y deunyddiau'n cael eu gosod fel bod y glaw yn gallu dod i mewn i'r cwt, a bod modd gweld y sêr trwyddyn nhw.

Mae'n bosibl prynu gwahanol fathau o gytiau ar-lein sy'n cwrdd â'r gofynion hyn, ac yna eu hadeiladu gartref.

Fel arfer, mae'r sukka yn cael ei ddodrefnu a'i addurno. Heddiw, nid oes llawer o deuluoedd Iddewig yn byw yn y sukka am y saith niwrnod ar ei hyd, ond maen nhw'n ceisio bwyta eu prydau bwyd yn y sukka. Felly, mae'n arferol rhoi bwrdd a chadeiriau yn y sukka ar gyfer gwneud hyn. Yn aml, bydd ffrwythau a llysiau yn cael eu hongian yn y sukka i'w addurno, ac mae hynny'n cysylltu'r wyl â'i pherthynas â'r cynhaeaf.

### Y lulav a'r etrog

Mae llawenhau gyda'r lulav a'r etrog yn y sukka yn un o'r defodau sy'n cael eu cynnal yn y sukka. Mae'r lulav yn cael ei wneud o ganghennau tri phlanhigyn: palmwydd, myrtwydd, a helyg, sy'n cael eu clymu â'i gilydd. Mae etrog yn ffrwyth sitrws melyn. Mae chwifio'r Pedwar Rhywogaeth yn ddefod sy'n cael ei chynnal yn y sukka ac yn y synagog, ac mae'n cael ei chwifio yn ystod pob un o ddyddiau'r wyl. Mae hyn yn symboleiddio presenoldeb Duw ym mhobman.

Nid yw'r symbolaeth sydd y tu ôl i'r rhif a'r dewis o blanhigion sy'n gwneud y Pedwar Rhywogaeth yn eglur. Mae rhai Iddewon yn credu eu bod nhw'n cynrychioli rhannau amrywiol y corff (yr etrog yw'r galon; y palmwydd yw'r asgwrn cefn; y myrtwydd yw'r llygaid; a'r helyg yw'r geg). Yn union fel mae'r lulav a'r etrog yn cael eu chwifio i lawenhau gerbron Duw, felly mae'r corff cyfan yn addoli Duw. Mae Iddewon eraill yn credu bod y Pedwar Rhywogaeth yn cynrychioli pedwar math gwahanol o Iddewon yn eu cymuned, yn seiliedig ar y trosiadau o flas ac arogl. Mae gan etrog flas ac arogl fel Iddewon dysgedig, sy'n gwneud pethau da. Mae blas ar balmwydd, ond dim arogl, yn debyg i Iddewon sy'n ddysgedig, ond sydd ddim yn gwneud pethau da. Nid oes blas ar fyrtwydd, ond mae ganddo arogl, yn debyg i Iddewon sydd ddim yn ddysgedig, ond sy'n gwneud pethau da. Ac nid oes blas nac arogl ar yr helygen, yn debyg i Iddewon sydd ddim yn ddysgedig nac yn gwneud pethau da.

### Ystyr Sukkah

Mae Sukkah yn:

- dathlu gofal Duw dros hynafiaid yr Iddewon mewn amodau caled yn y diffeithwch, lle darparodd Duw

- ar gyfer eu hanghenion.
- atgoffa Iddewon pa mor simsan yw bywyd, ac am yr angen i ddibynnu ar Dduw i'w cynnal trwy ailgysylltu bywydau modern â'r byd naturiol.
- dathlu ac yn diolch i Dduw am lawnder y cynhaeaf.
- yn atgoffa Iddewon o'r rhai sy'n llai ffodus na nhw'u hunain, gan eu hannog i fod yn elusengar,

ac mae hwn yn orchymyn pwysig.

- helpu Iddewon i gadw gorchmynion Duw yn y Torah, lle mae Duw yn gofyn iddyn nhw adeiladu sukkot yn Lefiticus 23:42 a llawenhau gyda'r lulav a'r etrog yn Lefiticus 23: 39-40 (mae'r gorchmynion yn ganolog i Iddewiaeth).

## Gweithgareddau

### **y Gorffennol a'r Presennol**

Gwnewch y gwaith ar y daflen 'Stori'r Sukkot', er mwyn i'r plant gael cyfarwyddo â'r stori sydd y tu ôl i Wyl y Sukkot.

Nodwch y gwahaniaethau rhwng bywyd teulu Dan a Rebecca a bywyd eu hynafiaid yn yr anialwch lawer iawn, iawn, o flynyddoedd yn ôl, (e.e. cartref parhaol/ pebyll neu gabannau dros dro a digartrefedd, digonedd o fwyd a diod/ diffyg darpariaeth. Sut y gofalodd Duw am hynafiaid Dan a Rebecca? (e.e. darparu bwyd a diod iddyn nhw, eu harwain i gartref parhaol, rhoi nerth iddyn nhw a'u gwarchod ar eu taith.)

Mae Rebecca'n dweud wrth Rhys a Sara bod Duw yn gofalu amdany'n nhw heddiw hefyd, a'i bod yn

hawdd anghofio hynny pan fyddwch chi'n byw mewn cartrefi cyfforddus. Ym mha ffordd y gallai Duw fod yn gofalu am Dan a Rebecca heddiw?

### **Gwyliau ledled traddodiadau crefyddol**

Gweithiwch ar galendr neu lyfr o wahanol wyliau'r holl grefyddau. Fe fyddai gofyn i hwn fod ar ffurf ffeil lle gallwch chi ychwanegu tudalennau fel byddwch chi angen i'w gael mewn trefn gronolegol.

Siaradwch am ba mor bwysig yw trefnu'r deunydd fel y gall pobl ddod o hyd i'r wybodaeth y byddan nhw'ihangen, yn gyflym. Gyda'r plant, penderfynwch ar drefn ddefnyddiol i'r llyfr, er enghraifft, fe allai penawdau adrannau fod yn ymwneud â phethau fel: storiâu, sut y caiff yr ŵyl ei dathlu heddiw, resipis, ac ati.



## Pennod 3 Deall y Torah

Mae gwybodaeth am gyflwyniad a defnydd defodol y Torah yn y synagog, yn ogystal â swyddogaeth y rabi, yn cael ei ddarparu yn y nodiadau athrawon ar gyfer pennod 1.

### Y Torah yn yr ysgrythurau Iddewig

Mae'r Torah yn cyfeirio at y pum llyfr cyntaf yn y Beibl (y Pumlyfr). Y llyfrau hyn yw:

- Genesis
- Exodus
- Lefiticus
- Numeri
- Deuteronomium

Y gweithiau ysgrifenedig hyn sydd wedi'u hysgrifennu mewn Hebraeg ar sgröliâu'r Torah sy'n cael eu defnyddio mewn synagogau.

Mae'r Torah yn rhan o gorff ehangach o destunau Beiblaidd sy'n cynnwys y Nevi'im (y proffwydi) a'r Ketuvim (yr ysgrifeniadau). Mae'r Nevi'im yn cynnwys:

- Llyfr Joshua
- Llyfr y Barnwyr
- Llyfrau Samuel
- Llyfrau'r Brenhinoedd
- Llyfr Eseia
- Llyfr Jeremeia
- Llyfr Eseciel
- a phroffwydi eraill

Mae'r Ketuvim yn cynnwys:

- Llyfr y Salmau
- Llyfr y Diarhebion
- Llyfr Job
- Caniad Solomon
- Llyfr Ruth
- Llyfr Galarnad
- Llyfr y Pregethwr
- Llyfr Esther
- Llyfr Daniel
- Llyfr Esra
- Llyfr Nehemeia
- Llyfrau'r Cronicl

O'u derbyn gyda'i gilydd, mae'r Torah, y Nevi'im, a'r Ketuvim yn cael eu galw'n TeNaKh. Mae darlleniadau

o'r tair adran hon o'r Tenakh yn rhan ganolog a phwysig o wasanaethau'r synagog, ac maen nhw'n cael eu trefnu mewn cylchoedd wedi'u cynllunio. Mae'r prif ddarlleniad bob amser yn dod o'r Torah, ac mae'r darlleniadau o'r Nevi'im a'r Ketuvim yn cael eu dewis i ategu'r darlleniad o'r Torah, gan dynnu ar themâu tebyg.

Testun Iddewig pwysig arall yw'r Talmud. Nid ysgrythur yw'r Talmud; mae'n cynnwys dehongliadau awdurdodol o'r Tenakh gan rabbis. Yn yr un modd â phob testun crefyddol, mae angen dehongli'r Tenakh, a chafodd y gwaith enfawr hwn o ddehongli ei godeiddio tua'r drydedd ganrif yn y Cyfnod Cyffredin. Mae angen i grefydd hefyd sicrhau bod ei thestunau a'i dysgeidiaeth yn parhau'n berthnasol i gymdeithas. Mewn Iddewiaeth, mae set arall o destunau sydd wedi'u cynnwys yn yr Halakhah, yn darparu'r adnoddau i wneud hyn.

Yn y stori, mae'r rabi yn cael eu disgrifio fel rhywun sy'n 'athro Iddewig ac yn arbenigwr ar y gyfraith' sy'n helpu Iddewon i ddeall sut i gymhwyso gorchmynion Duw yn yr ysgrythurau i'w bywydau bob dydd. Ar lefel ymarferol, mae gan rabbis swyddogaeth bwysig i'w chwarae yn y gymuned.

### Edifeirwch

Yn y stori, mae Rhys yn gofyn cwestiwn pwysig: beth sy'n digwydd os byddwch chi'n torri gorchmyn? Wrth ateb, mae Rebecca yn dweud bod angen i chi edifarhau, ac yna derbyn maddeuant gan yr un y gwnaethoch chi dramgwyddo yn ei erbyn.

Mewn Iddewiaeth, mae edifeirwch a maddeuant yn cael eu deall mewn ffyrdd penodol. Mae'n bosibl pechu yn erbyn Duw, a phechu yn erbyn bodau dynol eraill, pan fydd rhywun yn torri gorchmynion. Pan fydd rhywun yn pechu yn erbyn Duw, mae ffyrdd yn cael eu darparu i Dduw faddau'n ffurfiol i'r un sy'n edifarhau; er enghraifft, yn ystod Yom Kippur, Dydd y Cymod. Er hynny, os bydd rhywun wedi pechu yn erbyn bod dynol arall, yna mae angen maddeuant yr unigolyn arall hwnnw, hefyd, a'r gobaith yw y bydd yr iawn sy'n cael ei wneud am y difrod a achoswyd yn ennyn y maddeuant angenrheidiol.

## Gweithgareddau

### **Beth sydd mor bwysig am iaith?**

Mae'r Torah wedi'i ysgrifennu mewn hen, hen iaith o'r enw Hebraeg. Hebraeg yw un o ieithoedd swyddogol Gwladwriaeth Israel, a dyma'r iaith sy'n cael ei defnyddio mewn addoliad Iddewig. Mae Iddewon yn byw mewn llawer o wahanol wledydd ledled y byd, y tu allan i wlad Israel. Os ydyn nhw'n arfer eu crefydd Iddewig, mae llawer ohonyn nhw'n dysgu sut i ddarllen Hebraeg, oherwydd bod y Torah, a rhannau o'r addoliad Iddewig, yn yr iaith Hebraeg.

Gwnewch y gwaith ar y daflen 'Ysgrifen Hebraeg', fel y bydd y plant yn gallu gwerthfawrogi'r gwahaniaethau mawr sydd rhwng yr iaith Hebraeg ac iaith Ewropeaidd fel Cymraeg neu Saesneg, er enghraifft.

Gofynnwch i'r plant ddychmygu eu bod yn Iddewon ifanc yn byw yn y wlad hon, a bod disgwyl iddyn nhw ddysgu Hebraeg, er mwyn iddyn nhw allu darllen a gwrando ar y Torah yn cael ei ddarllen yn y synagog. Dychmygwch yr her, ac ystyriwch beth fyddai'n eu hysgogi. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau, gan ganolbwyntio ar greu dadl i gefnogi'r datganiad canlynol:

- Mae'n bwysig iawn defnyddio'r iaith Hebraeg yn y synagog ar gyfer darllen y Torah.

Fe allai pob grŵp gofnodi ei syniadau ar dudalen fawr o bapur fel map meddwl y gallech chi ei gyflwyno i'r dosbarth cyfan wedyn. Yn y broses o wneud y gweithgaredd yma, bydd y grwpiau'n gweld eu bod yn holi cwestiynau sydd angen eu hateb cyn y gallan nhw lunio rhai o'r dadleuon. Mae'n hanfodol bod ffynonellau gwybodaeth ar gael, naill ai ar ffurf llyfrau neu ar y rhyngwyd.

### **Pa mor anodd yw maddau?**

Gwnewch y gwaith ar y daflen 'Gwneud yn iawn'. Mewn Iddewiaeth, mae'n bwysig eich bod yn cael

maddeuant gan yr un y gwnaethoch chi ddrwg iddo, yn ogystal ag edifarhau am yr hyn rydych chi wedi'i wneud a cheisio unioni'r cam. Mae maddau'n llwyr yn un o'r pethau anoddaf i'w wneud mewn achos o unioni cam. Mae hyn oherwydd pan fydd rhywun wedi gwneud drwg i rywun arall mae'n achosi teimladau negyddol. Hyd yn oed pan fydd rhywun yn dweud ei bod hi'n ddrwg ganddo, a'r ymddiheuriad wedi'i dderbyn, fe all gymryd tipyn rhagor o amser cyn y bydd y teimladau negyddol wedi'u trwsio. Gofynnwch i'r plant nodi teimladau negatif posib, y gallai rhywun sydd wedi cael ei frifo eu teimlo mewn achos tebyg i'r canlynol:

Un bore, cyn dechrau'r diwrnod ysgol, roedd Ed yn chwarae gyda grŵp o ffrindiau ar yr iard. Roedd pawb mewn hwyliau da. Fel jôc, fe afaelodd bachgen o'r enw Bili ym mag Ed a'i daflu dros y wal i ardd rhywun. Chwarddodd pawb, ac wrth weld hynny, fe daflodd Bili got Ed hefyd dros y wal. Doedd Ed ddim yn hapus am hyn. Wrth lwc, fe helpodd ffrind arall Ed i gael ei fag a'i got yn ôl. Ond yn anffodus, fe welodd perchennog yr ardd nhw yn mynd i nôl y bag a'r got oddi ar ei dir, a'u dwrdio. Aeth i gwyno at bennaeth yr ysgol hefyd. Ar y dechrau doedd Bili ddim am gyfaddef mai ef oedd ar fai am yr holl helynt. Ond, ymhen amser, fe ddaeth y gwir i'r golwg ac fe ddywedodd Bili sori am ymddwyn mor angharedig. Fe addawodd na fyddai'n gwneud peth felly eto.

Fe ddylai'r plant restru'r teimladau a fyddai gan Ed, o bosib, tuag at Bili a'r hyn a wnaeth Bili iddo. Fe ddylen nhw allu egluro pam eu bod wedi nodi'r teimladau rheini. Hyd yn oed wedi i Bili ddweud sori, ac wedi i Ed dderbyn ei ymddiheuriad, mae'n debyg y byddai hi'n cymryd rhagor o amser cyn y byddai teimladau negyddol fel hyn wedi gwella ac wedi diflannu.

## Pennod 4 Gofalu am bobl eraill a'r byd

### Mezuzah

Ystyr Mezuzah yw 'cilbost', ac mae'n cyfeirio at sgrôl sy'n cael ei rhoi mewn bocs a gaiff ei hoelio ar gilbyst cartrefi neu adeiladau Iddewig, ac eithrio cilbyst yr ystafell ymolchi. Bydd Iddewon yn cyffwrdd â'r mezuzah pan fyddan nhw'n pasio rhwng y cilbyst, ac mae hyn yn eu hatgoffa o bresenoldeb Duw a'r angen i gadw gorchmynion Duw. Y mae hefyd yn nodi bod y cartref neu'r adeilad hwnnw'n un Iddewig.

Mae'r arfer yn cadw at y gorchymyn yn y Torah y dylid hoelio dwy ran o lyfr Deuteronomium ar gilbyst Iddewig (Deut. 6:9). Y ddwy ran yw:

- Deuteronomium 6:4-9;
- Deuteronomium 11:13-21.

Mae'n rhaid i'r rhannau hyn gael eu hysgrifennu â llaw, mewn Hebraeg, gan ysgrifennydd cymwys (sofer). Er mwyn i mezuzah fod yn gyfreithlon, mae'n rhaid iddo hefyd gael ei gopiö'n berffaith, ac mae'n rhaid gofalu amdano'n briodol. Mae'r ddwy ran hyn yn cael eu galw'n Shema, ac maen nhw'n cynnwys credoau canolog Iddewiaeth. Mae'r adnodau agoriadol yn neilltuol o bwysig:

Clyw, O Israel, y mae'r ARGLWYDD ein Duw yn un ARGLWYDD. Câr di yr ARGLWYDD dy Dduw â'th holl galon ac â'th holl enaid ac â'th holl nerth.

Mae'r adnodau'n canolbwytio ar y gred mai un Duw yn unig sydd, ac y dylid addoli Duw. Y brif ffordd ymarferol o addoli yn y grefydd Iddewig yw dilyn gorchmynion Duw, sydd i'w cael yn y Torah. Mae Tzedakah (elusen) yn orchymyn pwysig, a dyma yw testun y bennod.

### Elusen

Bydd y gair Hebraeg, Tzedakah, yn aml yn cael ei gyfieithu fel elusen, sy'n gallu bod yn gamarweiniol o ran y modd y mae Iddewon eu hunain yn ystyried Tzedakah. Mae 'elusen' yn awgrymu'r agweddau haelioni, caredigrwydd, ac allgaredd sydd y tu ôl i weithredoedd o roi i bobl eraill. Er hynny, yn Hebraeg, mae Tzedakah yn golygu 'cyfiawnder', sy'n awgrymu mai'r agweddau o gyfiawnder a thegwch sydd y tu ôl i weithredoedd o roi i bobl eraill. Mae hyn yn nodi dau bwyt pwysig ynghylch Tzedakah neu elusen Iddewig:

- dyletswydd crefyddol yw tzedakah, nid dewis bod yn hael;
- mae cyfiawnder a thegwch yn gofyn bod anghenion sylfaenol pobl yn cael eu cwrdd.

Mae'r gorchymyn ynghylch tzedakah yn y Torah yn cael ei ystyried gan nifer o Iddewon fel un o'r gorchmynion pwysicaf, ac mae'n chwarae rhan ganolog ym mywydau nifer o deuluoedd Iddewig. Mae'r blwch elusen sy'n cael ei ddangos yn y stori yn rhywbeth sy'n gyffredin mewn cartrefi Iddewig. Caiff Tzedakah ei roi er budd Iddewon a hefyd er budd rhai nad ydyn nhw'n Iddewon.

Mae cyfraith Iddewig yn dweud y dylai 10% o incwm unigolyn gael ei roi i rai mewn angen, yn ychwanegol at y trethi sy'n cael eu talu. Mae'r rhai sydd mewn angen fel arfer yn cynnwys:

- y tlawd;
- sefydliadau gofal iechyd;
- sefydliadau addysgol;
- synagog.

Mae'r Talmud (esboniad pwysigar y Torah) yn darparu rhestr ddiddorol o'r ffyrdd gwahanol o roi tzedakah, sy'n cael eu trefnu yn unol ag ansawdd. Y math isaf o tzedakah yw pan fydd rhywun yn rhoi'n anfodlon. Y math uchaf o tzedakah yw pan fydd rhywun yn rhoi mewn ffordd sy'n galluogi'r derbynnydd i fod yn hunangynhaliol.

### Yr amgylchedd

Mae nifer o gyfreithiau yn y Torah sy'n ymwneud â thrin anifeiliaid a'r tir yn briodol. Mae nifer o'r rheolau hyn yn gwneud synnwyr o safbwynt cynhyrchu amaethyddol, economeg, ac iechyd; er enghraifft, rhoi seibiant i dir, peidio â thorri coed, a chadw ffynonellau dŵr yn lân. Mae Duw'n darparu'r hyn y mae bodau dynol ei angen o ran adnoddau naturiol, ond mae disgwyl i fodau dynol feithrin a defnyddio'r adnoddau hyn yn briodol. Mae gofyn i fodau dynol weithio gyda Duw trwy gynnal creadigaethau Duw, yn hytrach na'u dinistrio.

Yn ychwanegol, drwy gofio mai eiddo Duw yw adnoddau naturiol ac nid eiddo pobl, mae gofyn rhannu'r adnoddau hyn, sy'n mynd â ni yn ôl at arfer tzedakah.

## Gweithgareddau

### ***Pam rydw i'n ofalgar***

Gwnewch y gwaith ar y daflen 'Gofalu am y byd', lle mae gofyn i'r plant nodi'r pethau y maen nhw'n gofalu amdany'n nhw, a sut y maen nhw'n dangos yn ymarferol eu bod yn ofalgar.

Mae'r pethau rydym yn ofalgar yn eu cylch yn gysylltiedig â'n cred am y byd ac am bobl eraill. Yn y stori, mae'r plant Iddewig yn ofalgar tuag at yr amgylchedd a thuag at bobl eraill. Mae eu cred am Dduw a chreadigaeth Duw yn helpu i egluro pam y mae'r pethau hyn yn bwysig iddyn nhw. Bydd gan bobl sy'n dilyn crefyddau eraill, a rhai sydd ddim yn dilyn unrhyw grefydd neilltuol hefyd, farn wahanol fydd yn egluro pam eu bod nhw'n ofalgar tuag at yr amgylchedd a thuag at bobl eraill.

Gofynnwch i'r plant feddwl yn ofalus am beth maen nhw'n ofalgar ohono wrth wneud y gwaith ar y daflen, ac ystyried y rhesymau pam y maen nhw'n

ofalgar. Fel, er enghraifft, fe allai helpu pe byddai'r athro neu'r athrawes yn sôn wrth y plant am un peth y mae ef neu hi'n gofalu amdano, a chynnig rheswm byr am hynny.

### ***Cefnogi elusen***

Yn y stori, mae'r plant Iddewig yn trafod gyda'r teulu pa elusen i'w chefnogi. Casglwch ynghyd daflenni gwybodaeth am elusennau sy'n gweithio mewn nifer o wahanol feysydd. Fel dosbarth, trafodwch y gwahanol elusennau, a thrwy bleidlais ddemocrataidd, penderfynwch pa elusen y gallech chi ei chefnogi.

Cynlluniwch ddigwyddiad codi arian sydd i'w gynnal yn ystod un amser cinio neu amser egwyl. Paratowch bosteri yn hysbysu'r digwyddiad a gwaith yr elusen, i'w harddangos o gwmpas yr ysgol.

## Pennod 5 Dysgu am kashrut

### Bwyd kosher a bwyd nad yw'n kosher

Yn y stori, mae Dan yn cyflwyno i Rhys a Sara gyfreithiau bwyd Iddewig, sy'n cael eu galw'n kashrut. Gellir dod o hyd i gyfreithiau manwl iawn ar fwyd yn y Torah. Mae Dan yn egluro bod modd rhannu'r gyfreithiau bwyd yn ddau brif grŵp. Mae'r grŵp cyntaf o gyfreithiau bwyd yn nodi bwydydd a ganiateir (kosher) a'r rhai a waherddir (rhaid nad ydyn nhw'n kosher) i Iddewon. Y bwydydd kosher yw:

- cig sy'n dod o famaliaid sydd â charnau hollt ac sy'n cnoi eu cil (gwartheg, geifr, ceirw, a defaid);
- adar (pob math o adar, ac eithrio'r rhai sy'n cael eu gwahardd yn Lefiticus);
- cynnyrch llaeth o anifeiliaid kosher;
- pysgod sydd ag esgyll a chen arnyn nhw;
- wyau adar kosher;
- ffrwythau a llysiau o bob math;
- grawn a grawnfwydydd (heb eu prosesu, neu gyda label kashrut arnyn nhw).

Y bwydydd nad ydyn nhw'n kosher yw:

- cig o foch a mamaliaid heb garnau hollt ac nad ydyn nhw'n cnoi eu cil;
- caws, y mae ceuled o anifail wedi'i ddefnyddio i'w gynhyrchu; adar ysglyfaethus;
- pob anifail sy'n byw yn y môr sydd heb esgyll a chen arnyn nhw, er enghraifft, pysgod cregyn, (cimwch, crancod, corgimychiaid), mamaliaid môr (morfilod, morloi, a dolffiniaid), sgwid, ac octopws.

Mae'r ail grŵp o gyfreithiau bwyd yn ymwneud â'r modd y mae bwyd yn cael ei baratoi; ni fydd bwyd yn kosher oni bai ei fod yn cael ei baratoi mewn modd penodol. Mae dulliau paratoi bwyd er mwyn ei wneud yn kosher yn cynnwys:

- trefn lladd wedi'i ragnodi'n fanwl ar gyfer pob anifail kosher;
- peidio â chynnwys cig a chynnyrch llaeth yn yr un pryd bwyd;
- gofalu nad yw cynnyrch sy'n llygru yn dod i gysylltiad â bwyd kosher.

Mae'n rhaid i'r un sy'n lladd yr anifail fod yn gymwys, a rhaid iddo ddefnyddio llafn miniog heb ymyl ddanheddog iddo i dorri trwy'r gwddw gan dorri'r

rhydweiliau, y gwythiennau, y nerfau, y tracea, a'r oesoffagws. Dywedir bod marwolaeth y digwydd bron ar unwaith pan fydd lladdwr cymwys wrth ei waith. Ar ôl i'r anifail gael ei ladd, mae'n rhaid gwirio nad oes olion o afiechyd arno, a rhaid cael gwared â'r holl waed o'r corff.

Wrth beidio â chynnwys cig a chynnyrch llaeth yn yr un pryd bwyd, mae hyn yn golygu mwy na dim ond peidio bwyta'r cynnyrch gyda'i gilydd. Bydd Iddewon caeth yn defnyddio cyfarpar coginio, cyllyll a ffyr, a llestri gwahanol ar gyfer cynnyrch llaeth, er mwyn osgoi cymysgu cynhyrchion.

Bydd nifer o fwydydd wedi'u prosesu yn cael eu paratoi mewn amgylchiadau lle mae hi'n anodd gwarantu nad yw bwydydd kosher, a'r rhai nad ydyn nhw'n kosher, yn cael eu cymysgu, neu nad yw cig a chynnyrch llaeth yn cael eu cymysgu.

Gall dilyn diet kosher caeth iawn fod yn anodd. Oherwydd hyn, gall Iddewon brynu cynnyrch bwyd sydd wedi'u nodi â label arbennig, sy'n ardystio eu bod nhw'n kosher.

### Gwahaniaeth o fewn Iddewiaeth

Mae'n bwysig bod gwahaniaeth o fewn crefydd yn cael ei gydnabod, er mwyn osgoi creu ystrydebau. Ar lefel syml, dylai cydnabod gwahaniaeth ddechrau yn yr ysgol gynradd. Yn y llyfr stori, mae Dan a Rebecca yn cael eu cyflwyno fel Iddewon Diwygiedig (nid dim ond Iddewon), ac mae ffurf neilltuol ar Iddewiaeth yna'n cael ei gyflwyno i'r darlennydd yn y penodau dilynol. Yn y bennod olaf, 'Dysgu am kashrut', mae diet Dan a Rebecca fel Iddewon Diwygiedig yn cael ei gymharu'n fanwl â diet eu hewythr, Yncl Reuben, fel Iddew Uniongred. Yn wir, byddai rhai Iddewon Diwygiedig yn llai caeth na Dan a Rebecca.

Er bod aelodau sy'n arddel crefydd neilltuol yn rhannu pethau hanfodol sy'n debyg i'w gilydd, mae hyn yn gwneud y pwynt bod gwahaniaethau arwyddocaol rhyngddyn nhw. Yn yr achos hwn, mae Iddewon Diwygiedig ac Uniongred yn cadw at ran ganolog y Torah a'r gorchmynion yn eu bywydau, ond mae'r naill a'r llall yn ymdrin â'r ysgrythur ac yn ei dehongli mewn ffyrdd gwahanol iawn.

## Gweithgareddau

### **Mapio Iddewiaeth**

Gosodwch i fyny fap mawr o Gymru. Marciwch ar y map leoliadau synagogau yng Nghymru, gan nodi'r traddodiadau Iddewig y maen nhw'n perthyn iddyn nhw. Bydd y wybodaeth yn hawdd dod o hyd iddi ar y rhyngwyd, trwy ddefnyddio'r geiriau 'synagogues in Wales' wrth chwilio. Ymhle yng Nghymru y mae'r mwyaf o gymunedau Iddewig i'w cael heddiw? Lluniwch siart bar yn dangos y nifer o synagogau sy'n perthyn i bob traddodiad Iddewig. Pa draddodiadau Iddewig sydd â'r mwyaf o synagogau yng Nghymru?

### **Gwahaniaethau mewn Iddewiaeth**

Mae'r taflenni gwaith 'Bwyd Kashrut', 'Rheolau Bywyd' a 'Llunio bwydlen' yn archwilio deddfau bwyd Iddewig. Mae gwahanol draddodiadau Iddewig yn ystyried y deddfau hyn mewn ffyrdd gwahanol. Yn y llyfr stori, mae enghreifftiau o'r gwahaniaethau hyn yn cymharu'r traddodiad Diwygiedig â'r traddodiad Uniongred.

Ymchwiliwchgyda'r plant wahaniaethau eraill rhwng y traddodiad Diwygiedig mwy rhyddfrydol a'r

traddodiad Uniongred mwy ceidwadol. (Cofiwch nad yw pob Iddew Uniongred, na phob Iddew Diwygiedig yr un fath ychwaith!) Meysydd defnyddiol i'w harchwilio a fyddai:










- gwisg (e.e. gwisg nodedig rhai dynion sy'n Iddewon Uniongred, a dim ond dynion sy'n gwisgo'r tallit a'r kippah yn y traddodiad Uniongred);
- rôl y merched yn y synagog (e.e. mae merched a dynion yn eistedd ar wahân mewn synagogau Uniongred, a safle'r ferch fel Rabbi);
- barn am y Torah a'r deddfau (e.e. mae llawer o Iddewon Uniongred yn credu mai union eiriau Duw yw'r Torah. Mae hyn yn golygu eu bod yn cadw mor agos â phosib at y testun pan fyddan nhw'n ei ddehongli. Mae Iddewon Diwygiedig yn credu bod Duw wedi ysbrydoli'r bodau dynol a ysgrifennodd y Torah. Mae hyn yn golygu eu bod yn aml yn fwy rhyddfrydol yn eu dehongliad o'r Torah, ac mae hyn i'w weld yn eu ffordd o drafod y deddfau Iddewig fel deddfau Kashrut a'r Shabbat).

## Geiriau Allweddol

<b>arch</b>	cwprdd lle mae sgroliau'r Torah yn cael eu cadw	<b>rabi</b>	athro Iddewig wedi'i ordeinio
<b>cyfamod</b>	cytundeb rhwng dau barti lle mae'r ddau barti'n cytuno i wneud rhai pethau	<b>Shabbat</b>	y Sabath Iddewig sy'n dechrau ar nos Wener ac yn dod i ben ar nos Sadwrn
<b>etrog</b>	ffrwyth sitrws	<b>Shema</b>	rhan o'r Torah sy'n cynnwys y credoau Iddewig canolog a'r gorchymyn i hoelio'r geiriau hyn ar ffrâm drysau cartrefi ac adeiladau Iddewig
<b>kashrut</b>	deddfau bwyd Iddewig sydd i'w cael yn y Torah	<b>seren Dafydd</b>	un o symbolau Iddewiaeth
<b>kippah</b>	cap bach crwn sy'n cael ei wisgo gan ddynion Iddewig	<b>sukkah</b>	caban dros dro yn symboleiddio'r cabanau a ddefnyddiwyd gan yr Iddewon yn yr anialwch
<b>kosher</b>	yn cwrdd â gofynion y deddfau bwyd Iddewig	<b>Sukkot</b>	gŵyl Iddewig yn dathlu gofal Duw am yr Iddewon yn yr anialwch
<b>lulav</b>	canghennau tri phlanhigyn: palmwydden, myrtwydden, a helygen, wedi'u clymu gyda'i gilydd	<b>synagog</b>	man addoli Iddewig
<b>mantell</b>	gorchudd o ddefnydd ar gyfer sgroliau'r Torah	<b>tallit</b>	siôl weddi sy'n cael ei gwisgo gan ddynion Iddewig (a merched mewn Iddewiaeth Ddiwygiedig)
<b>mezuzah</b>	sgrôl gydag adnodau o'r Shema wedi'u hysgrifennu arni, sy'n cael ei hoelio ar ffrâm drysau cartrefi ac adeiladau Iddewig	<b>Torah</b>	ysgrythur bwysicaf Iddewiaeth
<b>ner tamid</b>	y lamp sydd wedi'i goleuo o flaen yr arch	<b>tzedakah</b>	y ddyletswydd grefyddol Iddewig o roi at elusen

# Ysgrifennu stori

Dychmygwch eich bod wedi ymweld â synagog Iddewig gyda ffrind sy'n addoli yno. Ysgrifennwch stori am eich ymweliad, gan roi manylion am bob rhan welsoch chi, a'r pethau oedd yno. Bydd y lluniau a'r disgrifiadau yma yn eich helpu.

<p><b>seren Dafydd</b> Mae'r arwydd yma'n dangos bod y synagog yn Iddewig. Mae'n bosib y gwelwch chi'r arwydd mewn ffenestr wydr lliw, ar ganwyllbrennau, neu fel rhan o'r patrwm ar y waliau.</p> 	<p><b>Arch</b> Ar y wal sy'n wynebu Jerwsalem, mae cwpwrdd lle mae sgroliau'r gyfraith yn cael eu cadw. Mae llenni prydfferth yn ei orchuddio.</p> 	<p><b>ner tamid</b> Mae lamp arbennig yn hongian uwch ben yr Arch. Mae'r lamp yn olau bob amser, fel arwydd bod Duw yn bresennol.</p> 
<p><b>Sgroliau'r Torah</b> Mae llyfrau'r gyfraith (pum llyfr cyntaf y Beibl Hebraeg) wedi'u hysgrifennu ar sgroliau hir yn yr iaith Hebraeg. Mae handlenni'r sgroliau wedi'u haddurno 'n aml â choronau neu glychau arian.</p> 	<p><b>bimah</b> Yng nghanol y neuadd weddio mae llwyfan bach gyda darllenfa arno. Yn ystod y gwasanaethau, mae'r Torah yn cael ei ddarllen oddi yma.</p> 	<p><b>yad</b> Pan fydd y bobl yn darllen o'r Torah, maen nhw'n defnyddio pwyntydd arbennig i ddilyn y geiriau. Felly, nid yw'r sgroliau'n cael eu cyffwrdd gan ddwylo unrhyw un.</p> 
<p><b>Ysgriflen Hebraeg</b> Ysgrifennwyd y gorchmynion Iddewig mewn Hebraeg. Yn aml, mewn synagogau, fe fydd geiriau Hebraeg i'w gweld uwch ben y drws neu uwch ben yr Arch, i atgoffa'r bobl am y gorchmynion yma.</p> 	<p><b>kippah</b> Pan fyddan nhw i mewn yn y synagog, fe fydd y dynion yn gorchuddio'u pennau â chap bach crwn.</p> 	<p><b>tallit</b> Mae pob dyn, y bechgyn hynaf, a rhai merched yn gwisgo siôl weddi i orchuddio'u pennau. Mae hyn yn dangos parch a gwyleidd-dra o flaen Duw.</p> 









# Seren Dafydd

Mae seren Dafydd yn symbol pwysig i Iddewon. Tynnwch lun seren chwe phigyn a'i haddurno, neu gyfres o sêr, gan ddechrau â siâp hecsagon.

## Beth i'w wneud



1. Dargopiwch yr hecsagon sydd ar y dudalen yma ar ddalen arall o bapur.
2. Gan ddefnyddio pensil a phen mesur, tynnwch linell o un fertig i'r fertig nesaf ond un, a llinell arall i'r fertig nesaf ond un wedyn. (Byddwch yn pasio un bob tro, ac yn mynd ymlaen i'r nesaf.) Cofiwch ddefnyddio pren mesur.
3. Ailadroddwch hyn gyda fertigau eraill yr hecsagon. Fe fydd dwy linell yn dod o bob fertig. Yn y diwedd fe fydd gennych chi Seren Dafydd.
4. Yng nghanol y seren, fe fydd siâp hecsagon newydd. Ailadroddwch y broses eto o fewn yr hecsagon yma i wneud siâp seren arall yn y canol.
5. Fe allech chi stopio yma, a lliwio'r sêr sydd gennych chi eisoes, neu fe allech chi ddal ati i lunio rhagor o sêr. I wneud hynny, rhaid i chi ymestyn llinellau'r seren sydd yn y canol allan at ymylon yr hecsagon gwreiddiol.
6. Yna, fe welwch chi hecsagon bach newydd ym mhob fertig o'r hecsagon gwreiddiol, ac fe allwch chi wneud seren ym mhob un o'r rhain, a seren yn y canol eto.



# Ysgrifennu cerdd

Ysgrifennwch gerdd am Sukkot. Dyma dri syniad i chi ddewis ohonyn nhw.

- 1. Acrostig:** Ysgrifennwch y gair SUKKOT yn fertigol i lawr y dudalen. Dewiswch eiriau neu linellau am yr ŵyl sy'n dechrau â'r llythrennau yma, neu'n cynnwys y llythrennau yma.
- 2. Cerdd siâp:** Tynnwch amlinelliad ysgafn iawn o gaban, neu o gangen palmwydd. Dewiswch eiriau a brawddegau am Sukkot sy'n ffitio i'r siâp yma.
- 3. Cerdd yn disgrifio teimlad:** Dychmygwch eich bod yn eistedd y eich caban yn cofio am yr Iddewon, filoedd o flynyddoedd yn ôl, yn crwydro trwy'r anialwch am 40 o flynyddoedd. Ysgrifennwch gerdd am eich teimladau.



# Gwneud cerdyn Sukkot


Yn ystod y Sukkot, mae Iddewon yn treulio rhan o'u hamser mewn sukkah (caban syml). Mae hyn yn eu helpu i gofio am yr amser y bu eu hynafiad yn byw mewn cabanau am 40 o flynyddoedd, tra roedden nhw'n teithio yn yr anialwch. Maen nhw'n cofio bod Duw wedi gofalu amdany'n nhw, ac yn cofio bod Duw yn gofalu amdany'n nhw heddiw hefyd.

Gwnewch gerdyn Sukkot ar siâp sukkah

## Fe fydd arnoch chi angen

cerdyn  
siswrn  
pinnau ffelt neu bensiliau lliw

glud neu dâp gludiog  
dail a brigau mân




## Beth i'w wneud

1. Plygwch y cerdyn yn ei hanner.




2. Gludiwch yr ochrau ynghyd â glud neu dâp gludiog.



3. Torrwch ddrysau'n agor ar y tu blaen.



5. Addurnwch y tu allan i edrych fel sukkah, naill ai trwy wneud llun brigau a dail arno, neu trwy ludio rhai arno.



# Stori'r Sukkot


Yn wreiddiol, roedd yr iaith Hebraeg yn cael ei hysgrifennu heb y llafariaid. Dychmygwch geisio darllen geiriau a brawddegau sydd wedi'u hysgrifennu â chytseiniaid yn unig! Flynyddoedd yn ddiweddarach, roedd dotiau yn cael eu rhoi o dan y cytseiniaid i ddangos swm y llafariad. Roedd hyn yn ei wneud ychydig yn haws. Dyma stori i chi ei darllen lle mae rhai o'r geiriau wedi'u hysgrifennu â chytseiniaid yn unig. Meddyliwch beth yw'r geiriau i fod, a'u hysgrifennu yn y lleoedd gwag.

Dros dair ml (\_\_\_\_) o flndddd (\_\_\_\_) yn ôl, roedd yr Iddewon yn gaethweision yng ngld (\_\_\_\_) yr Aifft. Roedd eu bywydau'n anodd. Roedden nhw'n cael eu trin yn greulon. Doedd ganddyn nhw ddm (\_\_\_\_) gobaith. Roedden nhw'n gweddio ar Dduw am hlp (\_\_\_\_).

Anfonwyd Moses atyn nhw gyda ngs (\_\_\_\_) i'r Pharo, i adael yr Iddewon yn rhdd (\_\_\_\_). Cafodd y bbl (\_\_\_\_) orchymyn i fnd (\_\_\_\_) i le rbng (\_\_\_\_) fyddai'n wlad iddyn nh (\_\_\_\_). Ar ôl llawer o drfrthn (\_\_\_\_), fe wnaethon nhw adael gwlad yr fft (\_\_\_\_) a cheisio eu rhyddid.

Am bdr (\_\_\_\_) deg o flndddd (\_\_\_\_), fe fuon nhw'n crdr (\_\_\_\_) drwy'r nlch (\_\_\_\_) yn gobeithio crrdd (\_\_\_\_) eu gwld (\_\_\_\_) newydd. Doedd gndn (\_\_\_\_) nhw ddm (\_\_\_\_) tai. Roedden nhw'n cario fframiau gyda nhw i'w dfndd (\_\_\_\_) i adeiladu cabanau iddyn nhw'u hnn (\_\_\_\_) pan fydden nhw'n aros. Pan oedden nhw'n tth (\_\_\_\_) ar eu ffrdd (\_\_\_\_), fe rdddd (\_\_\_\_) Duw fd (\_\_\_\_) a dr (\_\_\_\_) iddyn nhw.

Mae Iddewon yn prh (\_\_\_\_) i gofio am yr msr (\_\_\_\_) yma, ac yn dthl (\_\_\_\_) trwy adeiladu cbn (\_\_\_\_) a byw ynddo m (\_\_\_\_) ran o bb (\_\_\_\_) dydd yn ystod Skkt (\_\_\_\_). Rhaid bod o leiaf dr (\_\_\_\_) wal i'r sukkah. Rhaid iddo fod â tho wedi'i wneud o frg(\_\_\_\_). Rhaid i'r to roi csgd (\_\_\_\_), ond rhaid gallu gld (\_\_\_\_) yr awyr tr'r (\_\_\_\_) to hefyd.



# Gwneud yn iawn

Pan fydd Iddewon yn torri'r gorchmynion, mae disgwyl iddyn nhw wneud iawn am hyn. Pe byddech chi'n Iddew, efallai y byddech chi'n dilyn y camau yma.

1. Sylweddoli eich bod wedi torri un o orchmynion Duw.
2. Edifarhau: teimlo ei bod hi'n ddrwg gennych chi, a phenderfynu peidio â gwneud hynny eto.
3. Ceisio gwneud iawn am hyn trwy ddweud ei bod hi'n ddrwg gennych chi a chywiro unrhyw gam rydych chi wedi'i achosi.

Ar brydiau, fe fydd pawb ohonom ni'n gwneud rhai pethau rydyn ni'n gwybod eu bod ddim yn iawn. Gyda'ch ffrindiau, trafodwch rai o'r pethau sy'n digwydd o'ch cwmpas yn yr ysgol weithiau, ac sydd ddim yn iawn. Nodwch y camau y gallech chi eu cymryd i wneud iawn am hyn.

Rhai pethau sydd ddim yn iawn

---

---

---

Rhai camau y gallem ni eu cymryd

---

---


---

---

---

---

---



# Ysgriflen Hebraeg

Yn yr iaith Hebraeg y cafodd y cyfreithiau Iddewig eu hysgrifennu'n wreiddiol. Mae Hebraeg yn wahanol iawn i Gymraeg neu Saesneg. Mae'n hen, hen iaith.

<i>Ilythyren</i>	<i>enw</i>	<i>sain</i>
א	Aleph	Distaw
ב	Bet	B/V
ג	Gimel	G
ד	Dalet	D
ה	He	H
ו	Vav	V
ז	Zayin	Z
ח	Chet	Ch
ט	Tet	T
י	Yod	Y
כ	Kaf	K
ך	Khaf	K
ל	Lamed	L
מ	Mem	M
ם	Mem	M
נ	Nun	N
ן	Nun	N
ס	Samech	S
ע	Ayin	Distaw
פ	Peh	P
ף	Feh	F
צ	Tsadeh	Ts
ץ	Tsadeh	Ts
ק	Qof	Q
ך	Resh	R
ש	Shin	Sh
ת	Tav	T

## Yr iaith Hebraeg

- Mae'r llythrennau Hebraeg yn cael eu hysgrifennu'n wahanol i Gymraeg neu Saesneg.
- Dim ond cytseiniaid sy'n cael eu hysgrifennu, dim llafariad.
- Caiff yr iaith Hebraeg ei hysgrifennu o'r dde i'r chwith.
- Mae llyfr sydd wedi'i ysgrifennu mewn Hebraeg yn dechrau yn y pen y byddem ni'n ei alw'n gefn y llyfr.
- Caiff y tudalennau eu troi o'r chwith i'r dde. Mae dwy sain i rai llythrennau Hebraeg, ac mae rhai llythrennau â seiniau sydd ddim i'w cael mewn Cymraeg neu Saesneg.
- Mae dwy ffordd o ysgrifennu pump o'r llythrennau. Edrychwch ar Kaf, Mem, Nun, Pe a Tzade. Yr un sydd uchaf sy'n cael ei defnyddio yng nghanol gair. Caiff yr un isaf ei defnyddio ar ddiwedd gair.
- Dwy lythyren gyntaf y wyddor Hebraeg yw Alefi a Beti. Felly, yn aml, bydd y wyddor yn cael ei galw'n alefbet. (Ydi'r gair yn swnio'n gyfarwydd i chi?)

## Ysgrifennu rhai geiriau Hebraeg

Defnyddiwch yr alefbet Hebraeg i ysgrifennu'r geiriau yma. Cofiwch ddechrau ar ochr dde'r dudalen.

ner tamid	_____
bimah	_____
yad	_____
kippah	_____
tallit	_____
eich enw chi	_____

# Gwahanol reolau


Mae llawer o reolau gennym ni yn ein byd. Meddyliwch am rai ohonyn nhw.

## Cyfreithiau Iddewig

Ble gallwch chi ddarllen y rhain? \_\_\_\_\_

Nodwch ddwy gyfraith. \_\_\_\_\_

Pwy sy'n helpu Iddewon i'w deall nhw? \_\_\_\_\_



## Rheolau'r teulu

Sut rydych chi'n gwybod beth ydyn nhw? \_\_\_\_\_

Nodwch ddwy reol. \_\_\_\_\_

Pwy sy'n eich helpu chi i'w deall nhw? \_\_\_\_\_




## Rheolau'r ysgol

Ble gallwch chi ddarllen y rhain? \_\_\_\_\_

Nodwch ddwy reol. \_\_\_\_\_

Pwy sy'n eich helpu chi i'w deall nhw? \_\_\_\_\_




## Rheolau'r ffordd fawr

Ble gallwch chi ddarllen y rhain? \_\_\_\_\_

Nodwch ddwy reol. \_\_\_\_\_

Pwy sy'n eich helpu chi i'w deall nhw? \_\_\_\_\_



# Llunio mezuzah

Y tu allan i gartref Iddewig, fe allech chi weld bocs bach ar y dde i ffrâm y drws. Mezuzah yw hwn. Y tu mewn i gartref Iddewig, fe allech chi weld mezuzah ar ddrysau eraill hefyd. Mae Iddewon yn cyffwrdd â'r mezuzah wrth iddyn nhw fynd trwy'r drws, i'w hatgoffa bod Duw yno bob amser.

Y tu mewn i'r mezuzah mae sgrôl fechan iawn, gyda gweddi arbennig wedi'i hysgrifennu arni. Gweddi o'r Beibl yw weddi yma, sy'n cael ei galw'n Shema. Mae'n dechrau fel yma,

Clyw, Israel, y mae'r Arglwydd ein Duw yn un Arglwydd.







Câr di yr Arglwydd dy Dduw â'th holl galon  
ac â'th holl enaid ac â'th holl nerth.

## Fe fydd arnoch chi angen

cerdyn	pren mesur	siswrn
tâp gludiog	pensiliau	papur

## Beth i'w wneud

1. Torrwch betryal bach o gerdyn.
2. Plygwch y cerdyn yn dair rhan, ar ei hyd.
3. Plygwch ran o faint tebyg ar hyd top a gwaelod y cerdyn.
4. Torrwch y pedair cornel allan, ar hyd y plygiadau.
5. Plygwch bob un o'r rhannau sydd ar yr ochrau yn eu hanner eto. Mae angen i'r plygiad yma bwyntio ar i fyny, yn groes i'r plygiadau eraill.
6. Rhowch dâp i ddal y corneli gyda'i gilydd, fel bod gennych chi focs agored gyda thabiau i'w osod yn y lle rydych chi am roi.
7. Cynlluniwch beth i'w ysgrifennu ar gyfer eich mezuzah. Bydd Iddewon yn ysgrifennu eu gweddi arbennig nhw. Fe allech chi ysgrifennu beth sy'n bwysig i chi. Mae'n bosib i'ch gweddi fod am bobl sy'n bwysig i chi, neu am y math o unigolyn yr hoffech chi fod. Ysgrifennwch eich gweddi ar ddarn bach o bapur.
8. Rholiwch y papur a'i roi yn y mezuzah. Gyda'r tâp gludiog, gosodwch y bocs mewn man lle gallwch chi ei weld a'i gyffwrdd bron bob dydd. Fe allai fod yn eich drôr yn y dosbarth, neu ar ffrâm drws yn eich cartref.





# Gofalu am y byd

Mae Iddewon yn credu bod eu cariad at Dduw yn cael ei ddangos yn y ffordd y maen nhw'n ymddwyn. Un ffordd y maen nhw'n gallu dangos eu cariad yw trwy ofalu am y pethau y mae Duw wedi'u creu. Mae hyn yn golygu gofalu am bobl, am anifeiliaid ac am yr amgylchedd.

Rydym ninnau'n gwneud dewisiadau tebyg, hefyd. Darllenwch beth mae'r plant yn ei ddweud yma. Pa rai ydych chi'n cytuno â nhw? Pa rai sydd bwysicaf yn eich golwg chi? Torrwch allan bob un o'r blychau a'u gosod yn y drefn bwysicaf gennyh chi. Trafodwch eich dewisiadau gyda ffrind.

## Mae Nia yn ymboeni am ddolffiniaid.

Rydw i wedi clywed bod dolffiniaid weithiau'n cael eu dal a'u lladd wrth i bobl bysgota tiwna. Ers hynny, dim ond tiwna a ddaliwyd heb niweidio dolffiniaid y mae fy nheulu yn ei brynu.



## Mae David yn ymboeni am blant unig.

Weithiau, ar iard yr ysgol, rydw i'n gweld plant sydd ar ben eu hunain. Rydw i'n mynd i ofyn iddyn nhw ydyn nhw eisiau dod i chwarae gyda ni.



## Mae Nick yn ymboeni am blant tlawd.

Bob Nadolig, fe fyddwn ni fel teulu yn prynu anrhegion ychwanegol ac yn eu hanfon i gartrefi plant amddifad mewn gwledydd tramor. Does gan y plant yno ddim llawer o deganau.



## Mae Catrin yn ymboeni am anifeiliaid.

Fe welais i got ffwr un tro, a meddwl mor hyfryd oedd y got honno. Ond fe soniodd fy mam am yr anifeiliaid oedd yn cael eu lladd er mwyn i bobl gael ffwr felly. Wnaf i byth wisgo cot ffwr.



## Mae Shannon yn ymboeni am ailgylchu.

Yn ein tŷ ni, fe fyddwn ni'n ailgylchu popeth sy'n bosib. Yn ein cegin, mae gennym ni wahanol focsyr ar gyfer papur, cardfwrdd, poteli plastig, a sbarion llyisiau.



## Mae John yn ymboeni am lygredd.

Rydw i bob amser yn mynd i'r ysgol ar fy meic. Mae Mam yn mynd i'w gwaith ar ei beic hefyd. Mae siwrne Dad i'w waith yn bellach, ac mae'n mynd yn y car. Ond mae pobl eraill sy'n gweithio gyda Dad yn teithio gydag ef yn y car, er mwyn arbed petrol.



## Mae Emrys yn ymboeni am ymchwil cancer.

Mae fy nhaid wedi gwella ar ôl bod â chanser. Nawr, mae fy nheulu cyfan yn codi arian at ymchwil cancer. Rydyn ni eisiau i ddoctoriaid ddod o hyd i ffordd o wella cancer.



## Rydw i'n ymboeni am

---

---

---



# Rheolau bwyd


Mae rhai Iddewon yn cadw'n fwy caeth at y rheolau bwyd nag eraill. Fydd Iddewon Uniongred, fel Yncl Reuben yn y stori, ddim yn bwyta cig a chynnyrch llaeth yn yr un pryd bwyd. (Er enghraifft, dim menyn ar frechdanau cig.) Os ydyn nhw wedi bwyta cig, fyddan nhw ddim yn bwyta cynnyrch llaeth wedyn am rai oriau. Mae ganddyn nhw hyd yn oed ddwy set o offer coginio, platiau a chyllyll a ffyrc. Mae Iddewon Diwygiedig, fel Dan a Rebecca yn credu ei bod hi'n bwysig gallu cymysgu â phobl eraill sydd ddim yn Iddewon, a bwyta gyda nhw. Maen nhw'n gofalu bwyta'r bwydydd cywir, ond maen nhw'n barod i gymysgu cig a bwydydd llaeth.

Cynlluniwch fwydlen am ddiwrnod i Dan a Rebecca, a bwydlen i Yncl Reuben, gan gofio am y gwahaniaeth yn eu ffordd o fyw.

## Bwydlen Dan a Rebecca



## Bwydlen Yncl Reuben






# Llunio bwydlen

Dychmygwch eich bod yn agor caffi sy'n paratoi dim ond bwydydd kashrut. Eich gwaith cyntaf yw cynllunio bwydlen, a'i hargraffu.



## 1. Penderfynu pa fwydydd

Edrychwch ar reolau bwyd Iddewon. (Edrychwch ar y daflen 'Bwydydd kashrut'.) Pa fwydydd y gallwch chi eu gweini yn y caffi?



## 2. Rhoi'r bwydydd mewn grwpiau



Ar fwydlen, ran amlaf, fe fydd y bwydydd wedi'u grwpio'n adrannau fel 'diodydd', 'byrbrydau', 'bwydydd llysieuol', 'teisennau' ac ati. Dewiswch benawdau fydd yn addas i'r bwydydd rydych chi'n bwriadu eu gwerthu.



## 3. Teipio'r fwydlen

Dyma rai awgrymiadau i'ch helpu chi wneud eich bwydlen yn ddeniadol.

- Penderfynwch pa ffordd rydych chi'n mynd i ddal eich papur, ai portread neu dirlun. Os mai tirlun, efallai y byddwch chi'n dewis teipio dwy golofn a phlygu'r papur yn ei hanner.
- Amrywiwch eich penawdau. Arbrofwch gyda gwahanol ffontiau, maint a lliw, print trwm, canoli'r print.
- Dewiswch y ffont a'r maint yn ofalus ar gyfer yr eitemau ar y fwydlen. Gofalwch fod y print yn glir ac yn hawdd ei ddarllen.
- Os ydych chi'n rhoi prisiau'r bwydydd, arbrofwch gyda'r 'tab' ar y dde neu ar y chwith i weld lle mae'r man gorau i'w gosod. Os ydych chi eisiau cynnwys lluniau o rai o'r eitemau sydd ar eich bwydlen, chwiliwch drwy 'Clip Art'.



# Crefyddau'r Byd Heddiw

## *Llawlyfr athrawon*

Mae'r llawlyfr athrawon yn rhan o Gyfres Crefyddau'r Byd Heddiw, sy'n cynnwys saith llyfr stori ar gyfer plant 8 -11 mlwydd oed. Yn y gyfres mae'r disgyblion a'r athrawon yn cael eu gwahodd i ymuno â dau blentyn o'r enw Rhys a Sara sy'n dysgu mwy am eu ffrindiau o saith traddodiad crefyddol:

- Eglwys Anglicanaidd
- Bwdhaeth
- Eglwys Unionged Ddwyreiniol
- Hindŵaeth
- Islam
- Iddewiaeth
- Sikhiaeth

Mae'r llawlyfr athrawon yn rhoi:

- gwybodaeth gefndirol gynhwysfawr am y saith traddodiad crefyddol
- gweithgareddau dosbarth
- taflenni gwaith y mae'n bosib eu llungopïo
- rhestr geiriau allweddol

